# Cymru Decach: **Cydraddoldeb mewn Golwg**

RNIB Cymru

Golwg gwahanol
See differently

## Maniffesto RNIB Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026



© RNIB elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), yr Alban (SCO39316), Ynys Manaw (1226). Yn gweithredu hefyd yng Ngogledd Iwerddon.

## Rhagair y Cyfarwyddwr

Mae tua 112,000 o bobl yn byw gyda cholled golwg yng Nghymru, ac mae disgwyl i'r nifer hwn ddyblu erbyn 2050.

The Royal National Institute of Blind People (RNIB) Cymru yw elusen colled golwg fwyaf Cymru. Rydym yn darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i bobl ddall ac â golwg rhannol, yn ogystal â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr. Rydym yn ymgyrchu dros wasanaethau gwell ac yn codi ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebir gan bobl ddall ac â golwg rhannol. Ein cenhadaeth ni yw cefnogi a grymuso pobl sy'n cael eu heffeithio gan golled golwg i herio anghydraddoldebau a gwella eu bywydau.

Mae Cymru decach mewn golwg i ni. Mae gan bob un ohonom ran bwysig i'w chwarae wrth greu Cymru y mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn falch o'i galw'n gartref, lle gallant gyflawni eu potensial a gwireddu eu huchelgeisiau. Wrth i chi baratoi eich maniffesto, mae ein cais yn syml – helpwch ni i greu Cymru decach ar gyfer pobl sydd â cholled golwg.

**Ansley Workman**

# Crynodeb o'n ceisiadau

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

1. Rhoi terfyn ar golled golwg y mae posib ei osgoi drwy roi'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg ar waith, sef glasbrint sy'n cael ei arwain yn glinigol ar gyfer diwygio gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

2. Mynd i'r afael â'r loteri cod post o wasanaethau adfer golwg i sicrhau bod pob person sy'n profi colled golwg yn cael y cymorth ôl-ddiagnosis y mae ganddynt hawl iddo.

3. Cynnal hawliau pobl ddall ac â golwg rhannol i dderbyn gwybodaeth iechyd mewn fformat y gallant ei ddarllen drwy roi Safonau Gwybodaeth Hygyrch Cymru ar waith yn llawn.

4. Gwneud Cymru'n gymdeithas wirioneddol gynhwysol drwy ymgorffori Egwyddorion Allweddol yr RNIB ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol ym mhob safon a chyfarwyddyd perthnasol ar gyfer dylunio parthau cyhoeddus a thrafnidiaeth.


lease don't
distract me –
I'm a workin
guide do
Guide

# Iechyd

## 1. Rhoi terfyn ar golled golwg y mae posib ei osgoi

**Mae posib osgoi hanner yr holl achosion o golled golwg drwy ganfod yn gynnar a rhoi triniaeth amserol.**

Ond mae amlygrwydd clefydau llygaid fel glawcoma a dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran yn cynyddu wrth i'n poblogaeth ni fynd yn hŷn. Mae un o bob pump o bobl 75 oed a hŷn yng Nghymru yn byw gyda cholled golwg ac mae disgwyl i'r galw am wasanaethau gofal llygaid **gynyddu cymaint â 40 y cant** dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru dan bwysau aruthrol eisoes. Offthalmoleg yw'r arbenigedd cleifion allanol prysuraf yn y GIG yng Nghymru, gan gyfrif am **un o bob saith** claf ar y rhestr aros. Mae nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad offthalmoleg wedi cynyddu **169 y cant yn ystod y degawd diwethaf.**

Yng Nghymru mae'r niferoedd isaf o Offthalmolegwyr Ymgynghorol y pen o unrhyw un o wledydd y DU ac yn Ewrop dim ond Gogledd Macedonia sydd â llai.

Mae RNIB Cymru yn eithriadol bryderus bod cleifion ledled Cymru yn cael eu rhoi mewn perygl o golled golwg parhaol y mae posib ei osgoi oherwydd diffyg cynllun clir i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o restrau aros.

Mae'r data mesur gofal llygaid diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod mwy nag 80,000 o gleifion sy'n wynebu'r risg fwyaf o golled golwg parhaol yn aros yn rhy hir am driniaethau achub golwg – mwy na digon i lenwi Stadiwm Principality i'w gapasiti. Mae nifer y cleifion offthalmoleg sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed wedi mwy na dyblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.



**Nawr yw'r amser i weithredu.**
Rydym yn deall maint yr her ac mae clinigwyr wedi datblygu cynllun i'w goresgyn. Mae cyn Lywydd Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yng Nghymru wedi rhybuddio am **"don enfawr o ddallineb"**, ac y bydd y canlyniadau'n "drychinebus" oni bai fod gwelliannau brys yn cael eu gwneud i ddarpariaeth gofal llygaid arbenigol.

Wrth i ni aros a gobeithio am ymrwymiad a buddsoddiad gan Lywodraeth nesaf Cymru i gefnogi'r cynlluniau hyn i wella ein gwasanaethau gofal llygaid, mae mwy nag 80,000 o bobl yn eistedd gartref, yn aros yn bryderus am eu tynged, ac yn gobeithio am apwyntiad clinig llygaid a allai achub eu golwg.


**Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- Rhoi terfyn ar golled golwg y mae posib ei osgoi drwy wneud y buddsoddiad sydd ei angen i weithredu'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg, sef glasbrint sy'n cael ei arwain yn glinigol ar gyfer diwygio gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

- Dal byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg.

- Cyhoeddi cynllun ar gyfer gweithredu'r cofnod cleifion electronig offthalmig a'r system atgyfeirio ledled Cymru.

- Sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol amserol ym mhob cam o'u siwrnai gofal llygaid, drwy ymgorffori'r Llwybr Cymorth Gofal Llygaid mewn diwygiadau parhaus i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



# Gofal Cymdeithasol

## 2. Mynd i'r afael â'r loteri cod post o wasanaethau adfer golwg

**Mae adfer golwg yn wasanaeth hanfodol sy'n rhoi i bobl ddall ac â golwg rhannol y sgiliau a'r cymorth sydd arnynt eu hangen i fyw'n annibynnol.**

Mae'r ymyriad arbenigol hwn yn addysgu pobl sydd â cholled golwg sut i gyflawni tasgau dyddiol ymarferol gyda'u lefel newydd o olwg. Er enghraifft, mae hyfforddiant ffon wen yn rhan o'r broses hon yn aml, ynghyd â darparu offer, technoleg gynorthwyol, ac addasiadau i dai.

O'i wneud yn dda, mae adfer golwg yn newid bywyd. Mae'n helpu pobl sy'n profi colled golwg neu'n newid aruthrol mewn amgylchiadau gyda chymorth hanfodol i gadw eu sgiliau, eu hyder a'u hannibyniaeth. Heb y gwasanaeth hwn, rydym yn gwybod bod pobl yn cael eu hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu, yn ogystal â dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol.

O dan adran 15 Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i atal, oedi neu leihau'r angen am ofal a chymorth. Fodd bynnag, mae adfer golwg yn wasanaeth sydd wedi'i anghofio, wedi'i golli yng nghanol y pwysau amrywiol sy'n wynebu awdurdodau lleol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei adael heb ei gynllunio i raddau helaeth, heb ei fonitro a heb ddigon o adnoddau. Mae gwasanaethau dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion, cyllidebau tynnach a'r gostyngiad yn y gweithlu o arbenigwyr sydd eu hangen i ddarparu'r lefel briodol o gymorth.



Mae grymuso pobl gyda'r cymorth hwn yn yn hyrwyddo annibyniaeth, yn galluogi cyfranogiad mewn gwaith a gweithgareddau cymunedol ac yn lleihau'r angen am wasanaethau gofal drutach.

"Ar ôl e-byst yn ôl ac ymlaen yn mynegi fy angen am adfer fy ngolwg, o'r diwedd fe gefais i arbenigwr adfer sydd wedi bod yn gwbl anhygoel yn meithrin fy hyder i wrth ddefnyddio fy ffon. Yn anffodus, mae fy hyfforddiant i wedi bod yn anghyson iawn oherwydd y diffyg capasiti ac, a dweud y gwir, does dim digon o arbenigwyr adfer i ateb y galw. Mae hyn, i mi, yn bryder enfawr... sut gall y llywodraeth hybu cyflogaeth a chael pobl i mewn i waith pan nad yw'r cymorth sylfaenol ar gyfer annibyniaeth yn ddigonol?"
– ymgyrchydd RNIB Cymru yn Ne Cymru.

**Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- Datblygu Cod Ymarfer newydd yn benodol ar gyfer gwasanaethau adfer.
- Ei gwneud yn ofynnol i Arolygiaeth Gofal Cymru fonitro ac arolygu gwasanaethau adfer awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau adfer golwg arbenigol i sicrhau'r un lefelau o ansawdd a chysondeb â'r rhai a ddisgwylir gan wasanaethau gofal a chymorth wedi'u hasesu gan anghenion.
- Sicrhau bod darpariaeth adfer golwg arbenigol yn cael ei deddfu a'i chynllunio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, fel bod awdurdodau lleol yn cael eu cymell i fuddsoddi yn y gweithlu.
- Ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio, sicrhau adnoddau a darparu gwasanaethau adfer, gan gynnwys adfer golwg, sy'n bodloni'r galw lleol i gefnogi unigolion i sicrhau'r annibyniaeth orau bosibl.



# Mynediad at Wasanaethau

## 3. Gwarchod hawliau pobl ddall ac â golwg rhannol i dderbyn gwybodaeth iechyd mewn fformat y gallant ei ddarllen

**Mae gan bawb yr hawl gyfreithiol i gael mynediad at eu gwybodaeth iechyd bersonol a chyfrinachol mewn fformat y gallant ei ddeall.** Fodd bynnag, mae ymchwil gan RNIB Cymru yn datgelu bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu'n gyson i bobl ddall ac â golwg rhannol mewn fformat ysgrifenedig safonol na allant ei ddarllen.

Canfu ein hadroddiad **Gwna Fe I Wneud Synnwyr** fod un o bob tri o bobl ddall ac â golwg rhannol wedi methu apwyntiad gofal iechyd, neu fod effaith wedi bod ar eu gofal iechyd, oherwydd na chawsant wybodaeth yn y fformat gofynnol.

Mae gwybodaeth iechyd anhygyrch yn fater o anghydraddoldeb iechyd a diogelwch cleifion. Gall fod y gwahaniaeth rhwng mynychu neu fethu apwyntiad, deall canlyniadau profion neu ddiagnosis, cydymffurfio â chyngor meddygol neu ddefnyddio pecyn sgrinio cartref yn gywir. Mae hefyd yn effeithio ar hawl pobl i breifatrwydd, gyda llawer yn cael eu gorfodi i ddibynnu ar ffrindiau, aelodau o'r teulu neu ddieithriaid llwyr hyd yn oed i ddarllen gwybodaeth feddygol sensitif ar eu rhan.

"Oni bai am fy mam i'n edrych ar y pecyn ac yn sylweddoli bod y dos wedi cynyddu, fe allwn i fod wedi cymryd gor-ddos oherwydd doeddwn i ddim yn gallu ei ddarllen fy hun." – Ymatebydd i arolwg RNIB Cymru.



**Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**


- Gweithredu Safonau Gwybodaeth Hygyrch Cymru (AIS) yn llawn a sefydlu mecanweithiau atebolrwydd a llywodraethu cadarn i ddal byrddau iechyd i gyfrif am eu cydymffurfiaeth â'r Safonau.

- Pennu dyletswydd gyfreithiol i ddarparwyr iechyd gydymffurfio â'r AIS a gwarantu bod cleifion yn derbyn eu gwybodaeth iechyd mewn fformat y gallant ei ddarllen.

- Sicrhau bod gan systemau TG y gwasanaeth iechyd y swyddogaeth i gofnodi ac anfon gohebiaeth yn awtomatig ac yn rheolaidd yn y fformat gofynnol gan glaf. Er enghraifft, anfon llythyrau apwyntiad drwy e-bost, neges destun, llythyr print bras neu mewn braille.

- Gwarantu hawliau pobl anabl i dderbyn gwybodaeth ar sail gyfartal drwy'r fformat o'u dewis drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru.

- Sicrhau y dylai holl ohebiaeth Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus gydymffurfio â chanllawiau print clir yr RNIB a chanllawiau cyfathrebu digidol.



# Trafnidiaeth a'r Parth Cyhoeddus

## 4. Gwneud Cymru yn gymdeithas wirioneddol gynhwysol drwy wneud teithio'n hygyrch i bawb

**I bobl ddall ac â golwg rhannol, mae cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol i gynnal annibyniaeth, cael ymarfer corff, cadw mewn cysylltiad ag eraill, cael cyfleoedd addysg a chyflogaeth, yn ogystal â gwasanaethau allweddol fel gofal iechyd.**

Mae newidiadau i gynllun ein trefi a'n dinasoedd ni, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus anhygyrch, yn atal pobl ddall ac â golwg rhannol rhag teithio'n ddiogel ac yn annibynnol.

Dyma rai o'r heriau y mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu yn gyson wrth deithio:

- Llwybrau defnydd a rennir.
- Safleoedd bws steil 'byrddiwr bysiau', lle mae cerddwyr yn cael eu gorfodi i groesi llwybr beicio byw i fynd ar fws neu ddod oddi arno.
- Diffyg nodweddion diogelwch a hygyrchedd hanfodol ar drenau a bysiau, sy'n ei gwneud yn anodd i unigolion dall neu â golwg rhannol eu defnyddio'n ddiogel. Yn wir, dim ond 2 y cant o ymatebwyr i arolwg diweddar gan RNIB Cymru ddywedodd fod cyhoeddiadau sain ar fysiau'n cael eu darparu bob amser.
- Y defnydd o gerbydau microsymudedd tawel a chyflym ac e-sgwteri mewn mannau i gerddwyr sy'n eithriadol anodd i bobl ddall ac â golwg rhannol eu canfod.
- Ceir wedi parcio, e-sgwteri ac annibendod arall ar balmentydd, gan achosi rhwystrau a all arwain at faglu a chwympo neu hyd yn oed orfodi pobl oddi ar y palmant ac i ganol traffig sy'n dod tuag atynt.
- Swyddfeydd tocynnau heb staff, yn gorfodi pobl ddall ac â golwg rhannol i ddefnyddio peiriannau gwerthu tocynnau anhygyrch.
- Diffyg palmant cyffyrddol ar ymylon platfformau mewn gorsafoedd rheilffordd.



"Does gan fysiau yn fy ardal leol i ddim cyhoeddiadau sain bob amser. Dydw i chwaith ddim yn gwybod pryd mae bws wedi cyrraedd na pha rif ydyw, ac mae fy nhîm synhwyraidd lleol i wedi gwrthod dysgu'r llwybr i mi i fy safle bws lleol, am nad oes palmant yn rhan o'r llwybr, felly maen nhw'n ei ystyried yn 'risg iechyd a diogelwch" – ymatebydd i arolwg bysiau RNIB Cymru.

Mae dyluniad strydoedd a thrafnidiaeth cynhwysol yn well i bawb, gan alluogi cymunedau cyfan i fwynhau eu hardal yn ddiogel.

**Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y canlynol:**

- Blaenoriaethu diogelwch pobl anabl wrth i gynlluniau Teithio Llesol gael eu cyflwyno ledled Cymru drwy ymgorffori Egwyddorion Allweddol RNIB Cymru ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol yn yr holl ganllawiau a safonau perthnasol sy'n ymwneud â dylunio parthau cyhoeddus a thrafnidiaeth.


- Datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer dylunio safleoedd bysiau hygyrch.

- Gwahardd parcio ar balmentydd.

- Cymryd camau yn erbyn y defnydd anghyfreithlon o e-sgwteri ar ein palmentydd ni ac yn ein hardaloedd i gerddwyr yn unig a pheidio â rhoi cymeradwyaeth i gynghorau yng Nghymru gymryd rhan mewn treialon e-sgwter presennol nac yn y dyfodol.
- Rhoi lle blaenllaw i hygyrchedd mewn cynlluniau i wella gwasanaethau bysiau, drwy ddarparu gwybodaeth hygyrch a chyhoeddiadau sain.

- Ymdrechu i gael y rhwydwaith rheilffyrdd mwyaf hygyrch yn y DU drwy sicrhau bod gan bob gorsaf balmentydd cyffyrddol ar bob platfform a chadw staff mewn swyddfeydd tocynnau.

- Sicrhau bod tocyn teithio integredig am ddim ar gael i holl bobl anabl Cymru, yn debyg i'r cynllun Cerdyn Hawliau Cenedlaethol yn yr Alban.





# Cysylltwch â ni

Mae RNIB Cymru yn ymrwymo i weithio gyda phob plaid wleidyddol i wneud Cymru yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.


CymruCampaigns.Mailbox@rnib.org.uk

www.rnib.org.uk/nations/walescymru/

@RNIBCymru

@RNIBCymru